

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

3ydd o Fai 2016

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts a Bethan Edwards (Swyddog Ariannol).

Ymddiheuriadau: Cyng Ian Trow, Alan Jones Evans (Cynghorydd Gwynedd) a Lis Puw (Clerc)

Wrth groesawu pawb a chrynhoi gweithgareddau'r flwyddyn diolchodd Alwyn Roberts am y fraint o gadeirio'r Cyngor Cymuned am y flwyddyn ac am gefnogaeth yr aelodau a'r swyddogion. Soniodd am brif gyflawniadau'r cyngor dros y fwyddyn, sef:

- Cwblhau gwerthiant Cwt yr Hers a buddsoddi'r arian wrth gefn.
- Ymateb i Her Gwynedd a'i effaith bosibl ar yr ardal.
- Trafod ad drefnu Llywodraeth Leol ac effaith bosibl hyn ar gynghorau cymuned dros y blynyddoedd nesaf.
- Cefnogi datblygiadau Ysgol y Berwyn a Neuadd Buddug.
- Parhau i gynnal y toiledau ar y cyd â theulu'r Eagles.
- Gwaith paratoi i wella cyflwr llochesi bws yr ardal.
- Trafodaethau cyson ar drefniadau Fflatiau Maes y Pandy.
- Addasu trefniadau'r fynwent a'r ffioedd claddu.

- 1 Cadarnhawyd Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 3/5/2015.
- 2 Etholwyd **Beryl Hughes Griffiths** yn Gadeirydd am y flwyddyn 2016-17.
- 3 Etholwyd **Heledd Jones** yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2016-17.
- 4 Penodwyd is bwyllgor Cyllid : **Huw Antur, Dewi Jones, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw.**
- 5 Penodwyd is-bwyllgor mynwentydd: **Bethan Edwards, Lis Puw, Huw Pierce Roberts, Ian Trow, Karl Jones, Arwel LL Jones, Alan Jones Evans.**
- 6 Enwebwyd cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru: **Huw P Roberts**
- 7 Cadarnhawyd enw'r cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards am y cyfnod presennol: **Catrin Roberts.**
- 8 Enwebwyd 2 gynrychiolydd ar Bartneriaeth Penllyn: **Huw Antur ac Alwyn Roberts.**
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor
- 10 Mabwysiadwyd Côt Ymddygiad newydd ar gyfer yr aelodau).
- 11 Adolygwyd a chadarnhawyd Rheoliadau Cyllidol – Is Bwyllgor Cyllid i wirio.
- 12 Adolygwyd a chadarnhawyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor Cymuned.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Alwyn Roberts

- 13 Adolygwyd a chadarnhawyd Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.
- 14 Adolygwyd a chadarnhawyd trefniadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 15 Adolygwyd a chadarnhawyd Trefn Cwynion y Cyngor.
- 16 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd mewn egwyddor – aelodau'r Bartneriaeth i gadarnhau'r sefyllfa ariannol gyda Chyngor Gwynedd.
- 17 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor.
- 18 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant, a chytunwyd i yswirio am flwyddyn gyda chwmni Cane ar gost o £288.
- 19 Adolygwyd Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor.
- 20 Cadarnhawyd y Mantolenni ac Adroddiad y Swyddog Ariannol ar gyfer yr Archwilwyr.
- 21 Cadarnhawyd John Roberts fel Archwilydd Mewnol.
- 22 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2016-17 :

Dyddiadau Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn 2016-17 am 7.30pm yn Neuadd Bentref Llanuwchllyn:

3.5.16	6.12.16
7.6.16	3.1.17
5.7.16	7.2.17
6.9.16	7.3.17
4.10.16	4.4.17
1.11.16	

- 23 Trosglwyddwyd y gadeiryddiaeth i'r Is Gadeirydd Beryl Hughes Griffiths.